# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Mai 2017

Amser: 09.05 - 12.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/4209

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>David Melding AC (yn lle Janet Finch-Saunders AC)<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Matthew Kennedy, Institute of Housing<br>Matthew Dicks, Chartered Institute of Housing Cymru<br>Jim McKirdle, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Shaun Couzens, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Simon Inkson, Cyngor Sir Powys<br>Robin Staines, Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Steve Clarke, Welsh Tenants Federation<br>David Lloyd, TPAS Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

| | |
|---|---|
| | Jon Tomkinson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins AC, Joyce Watson AC, Sian Gwenllian AC, Gareth Bennett AC a Janet Finch-Saunders AC. Roedd David Melding AC yn dirprwyo ar ran Janet Finch-Saunders AC yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 4

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Matthew Dicks, Cyfarwyddwr Sefydliad Tai Siartredig Cymru
- Matthew Kennedy, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus (Cymru), Sefydliad Tai Siartredig Cymru

## 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Jim McKirdle, Swyddog Polisi Tai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Shaun Couzens, Prif Swyddog Tai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Simon Inkson, Pennaeth Tai, Cyngor Sir Powys
- Robin Staines, Pennaeth Tai, Diogelu'r Cyhoedd a Gofal a Chymorth, Cyngor Sir Gâr

3.2. Cytunodd Robin Staines, Cyngor Sir Gâr, i ddarparu manylion pellach am y camau a gymerwyd gan y cyngor i ymgynghori â thenantiaid a darpar denantiaid cyn diddymu'r Hawl i Brynu, gan gynnwys nifer y darpar denantiaid a gymerodd rhan a nifer yr ymatebion a gafwyd, a'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr.

## 4 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 6

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Steve Clarke, Cynghorydd Polisi, Tenantiaid Cymru
- David Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr, TPAS

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch Papur Gwyn Bil y Diddymu Mawr

5.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch Papur Gwyn Bil y Diddymu Mawr.

### 5.2 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

5.2.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 17 Mai 2017

6.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2, 3 a 4

7.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2, 3 a 4 a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynglŷn â'r materion a godwyd.